# UKSPF Prosiectau Blwyddyn 1

| Enw Prosiect | Ymyriadau | Crynodeb |
|---|---|---|
| 001SPF<br>Caeau 3G Newydd | W10<br>Cymunedau a Lle | Bydd y prosiect yn creu dau gae tyweirch artiffisial 3G newydd drwy uwchraddio'r carpedi ar gaeau presennol Aberteifi a Synod Inn a hefyd uwchraddio'r llifoleuadau halogen presennol i lifoleuadau LED sy'n fwy ynni-effeithlon. Bydd y caeau yn cael eu defnyddio gan: sefydliadau addysg yn ystod y dydd ar gyfer gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, gan y gymuned fin nos ac ar benwythnosau - tîm pêl-droed a rygbi a chlybiau cymunedol eraill. Rhoddir blaenoriaeth i gynyddu cyfranogiad menywod a merched. |
| 002SPF<br>Astudiaeth Dichonoldeb Cyfleusterau'r Gogledd | W14<br>Cymunedau a Lle | Mae Cyngor Sir Ceredigion a Phrifysgol Aberystwyth wedi cytuno i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar y cyd i ddarparu adroddiad sy'n nodi'r seilwaith cyfleusterau sydd ei angen yng Ngogledd Ceredigion i fodloni dyheadau strategol y ddau sefydliad ar gyfer gwella iechyd a lles trigolion drwy fod. yn gorfforol actif, nawr ac yn y dyfodol. |
| 003SPF<br>Cerdded er Lles | W6<br>Cymunedau a Lle | Nôd prosiect Cerdded er Lles Gorllewin Cymru yw datblygu model cynaliadwy ar gyfer grwpiau cerdded iechyd a lles ar draws rhanbarth Bwrdd Iechyd Hywel Dda sy'n cefnogi unigolion sy'n byw bywydau eisteddog neu gymharol eisteddog ar hyn o bryd, i ddod yn fwy egnïol yn gorfforol. Mae'r prosiect yn cynnig teithiau cerdded heb fod yn egnïol sy'n denu pobl hŷn â chyflyrau iechyd amrywiol. Mae gwirfoddolwyr o fewn cymunedau yn cael eu hyfforddi fel Arweinwyr Teithiau Cerdded a'r nod yw, ar ôl rhywfaint o gefnogaeth gan y Cydlynydd Cerdded, y bydd y gwirfoddolwyr cymunedol yn hysbysebu, trefnu ac arwain y teithiau cerdded gyda chymorth cyfyngedig gan y prosiect. |
| 004SPF<br>Cyfarpar Ffitrwydd Canolfan Llesiant Llanbedr Pont Steffan | W10<br>Cymunedau a Lle | Bwriad y prosiect yw darparu'r Ystafell Ffitrwydd newydd sy'n cael ei chreu yn y Ganolfan Llesiant, Llanbedr Pont Steffan i alluogi 30 o bobl (dros 12 oed) i fod yn actif ar yr un pryd. |
| 005SPF<br>Rhaglen Gwaith Ieuenctid Cymunedol a Llwybrau | W36<br>Pobl a Sgiliau | Mae'r prosiect yn estyniad o'r model darparu presennol o fewn y Gwasanaeth Cefnogi ac Atal, sy'n cynnal tri thîm cymorth plant ac ieuenctid. Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar y tîm gwaith ieuenctid cymunedol ac atal, sy'n darparu set o ymyriadau ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed. |
| 006SPF<br>Sgiliau Bywyd, Sgiliau Gwaith | W35<br>Pobl a Sgiliau | Bydd gan Sgiliau Bywyd Sgiliau Gwaith nifer o ymyriadau a fydd yn cefnogi pobl o bob oed gan gynnig mynediad i ddatblygiad sgiliau, profiad/cyfleoedd gwaith cyflogedig, cymorth gwaith a chyfleoedd hyfforddi ac ati a fydd yn arwain at achrediad, cymwysterau a chyflogaeth. |
| 007SPF<br>Partneriaeth Digwyddiadau | W17<br>Busnesau Lleol | Pwrpas y prosiect yw sefydlu partneriaeth digwyddiadau ar gyfer Ceredigion (Partneriaeth Digwyddiadau Caru Ceredigion), a chefnogi darparu dau ddigwyddiad sydd yn ei blynyddoedd cynnar yng Ngheredigion fel rhan o feithrin gallu i sefydlu digwyddiadau newydd a denu digwyddiadau adnabyddus, sefydledig i Geredigion dros y blynyddoedd i ddod. |

| | | |
|---|---|---|
| 008<br>Sgiliau Allweddol | W53<br>Lluosi | Bydd gan Sgiliau Allweddol / Key Skills nifer o ymyriadau a chyfleoedd hyfforddi pwrpasol, a fydd yn cefnogi pobl ifanc 19+, unigolion a theuluoedd trwy gynnig mynediad i ddatblygiad sgiliau rhifedd trwy amrywiol gyfleoedd hyfforddi ac ati a fydd yn arwain at achrediad, cymwysterau a gwella cyfleoedd cyflogaeth. . Byddwn yn gyfrifol am ddatblygu sgiliau a fydd yn galluogi pobl i wneud newidiadau bywyd effeithiol a chyrraedd eu llawn botensial. |